cwmpawd

eglwys efengylaidd gymraeg caerdydd

Rhif 59
Mawrth - Mehefin 2010

Golygyddol

Noel Gibbard

Carwn dynnu sylw at wefan 'Cristnogaeth 21'. Sefydlwyd hi gan rai '*sy'n awyddus i weld dehongli hanfodion Cristnogaeth radical ar gyfer yr oes bresennol*'. Dyma ddatblygiad diweddar o fewn yr eglwysi yng Nghymru; datblygiad sy'n her i'r ffydd Gristnogol hanesyddol, ac yn ymosodiad arni. Mae'n hawlio bod yn radical, ond mae'r erthyglau yn llawn o hen slogannau: '*Iesu nid Paul*'; '*marw iawnol yn wrthun*', ac ni ddylid '*gwneud eilun o'r Beibl*'.

Hawlia'r ysgrifau ymateb manwl; dim ond nodi tri pheth sy'n bosibl mewn nodyn fel hwn. Yn gyntaf, mater canon yr Ysgrythur. Credai'r Eglwys ar hyd y canrifoedd fod y Beibl yn gyflawn. Ni ddylid ychwanegu ato, na thynnu oddi wrtho. Gosodwyd ffin ar y llyfrau a oedd i'w cynnwys i ffurfio'r Hen Destament a'r Testament Newydd, a daethant yn awdurdod yn yr Eglwys. Awgryma ysgrifau'r wefan dan sylw fod Duw yn dal i siarad ar ôl i Ioan orffen Llyfr y Datguddiad, ac y gall Ei neges ddod o fannau annisgwyl. Onid yw datguddiad Duw yn derfynol? Yr hyn sydd ei eisiau arnom ni yw ei ddeall yn well.

Yn ail, y cymylu ar Berson Iesu Grist. Pwy yw Iesu? Yn ôl y wefan, nid Crist yr athrawiaethau, ond Crist y rebel a all drawsnewid bywydau pobl a'u galluogi i osod trefn ar gymdeithas. Nid un i'w addoli yw Ef: yn wir, ni hawliodd Iesu Grist addoliad. Nid yw Crist, felly, yn unigryw. Ond a oedd Tomos yn ei dwyllo ei hun pan addolodd yr Iesu, '*Fy Arglwydd a'm Duw*'? Iesu, nid Paul, a ddywedodd, '*Myfi yw y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd, nid oes neb yn dyfod at y Tad, ond trwof fi.*'

Yn olaf, os un felly yw Crist, beth am y comisiwn cenhadol? Hawlia mwy nag un o'r cyfranwyr fod gwahanol ffyrdd at Dduw. Gall y Mwslim ddod o hyd i'w dduw yn y Corán, a phob crefyddwr arall yn ei ffordd ei hun. A yw'r comisiwn yn ddirym? Y Crist a gododd o'r bedd y trydydd dydd a ddywedodd, '*Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd*'. Ie, o'r holl genhedloedd. Mae'r Crist byw ar ei daith o hyd. A'r Crist hwn a ddaw eto mewn mawredd a gogoniant.

Dan y bonet

Gwydion Lewis

Mae'n car ni wedi bod yn y garej yn ddiweddar. Mae'n hen erbyn hyn, ac wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth da i ni. Mae wedi cludo'n plant ni a phlant teuluoedd eraill nôl a mlaen i'r ysgol. Mae wedi dioddef esgidiau mwdlyd ar ol sawl gêm rygbi. Mae wedi tynnu treilar ein pabell ni fel teulu ar ein gwyliau haf ers sawl blwyddyn bellach. Mae wedi bod yn dacsi ar nos Iau i fynd â bois y capel i chwarae pêl-droed. Ac mae wedi mynd â Catrin a Menna i'r rhan fwyaf o gaffis Caerdydd!

Roedd yn edrych yn lled dda o ystyried hyn oll. Doedd dim sglein arno bellach, rhaid cyfaddef, ac roedd wedi dioddef ambell dolc bach, ond doedd dim problem amlwg i'w gweld yn allanol. Ond, pan aeth i gael ei MOT blynyddol dywedodd dyn y garej fod llawer iawn o rwd mewn mannau o'r golwg a bod angen delio â nifer o broblemau eraill. Newyddion drwg! Felly roedd rhaid gadael y car yn y fan a'r lle am rai dyddiau iddo gael ei drin.

Mae'r car nôl gyda ni bellach ac wedi cael ei drwsio. Ond, rwy'n ofni mai *patch up job* a gafodd y car mewn gwirionedd. Mae ei ddyddiau wedi eu rhifo: buan iawn y daw'r rhwd yn ôl, a bydd rhaid i ni chwilio am gar newydd cyn yr MOT nesaf.

Wrth i bobl eraill edrych ar ein bywydau ni, efallai eu bod nhw'n credu nad oes problem amlwg i'w gweld yn allanol. Rydyn ni'n gallu twyllo pobl eraill, a'n hunain weithiau. Rydyn ni'n gallu cuddio y tu ôl i fywyd gweddol dda. Rydyn ni'n gallu bod yn garedig i bobl eraill a byw bywyd moesol gorau y gallwn ni. Ond, y gwir yw, mae'r broblem go iawn dan yr wyneb: y genfigen dawel, y meddyliau cas at berson arall, y cymhellion hunanol, y duedd i roi fi fy hun yn gyntaf cyn Duw. Efallai nad yw'r pethau hyn i'w gweld yn amlwg, ond beth petaen ni'n mynd at yr arbenigwr (sef Duw) i gael archwilio ein bywyd: beth ddywedai ef? Pasio? Methu?

Y newyddion da yw bod modd delio â'n problemau ni, sef ein pechod. Mae Duw wedi trefnu ffordd i'n trwsio ni. Ac nid *patch up job* ond gwella'n llwyr – delio â'r broblem nes ein bod yn hollol iawn yn ei olwg am byth!

'Beth yw'r gost?' gofynnais yn betrus i ddyn y garej pan es i gasglu'r car. Roedd pris i'w dalu. Mae'n deg gofyn yr un cwestiwn i Dduw hefyd. Ond does dim angen inni ofni, dyw Duw ddim yn gofyn dim i ni, achos mae Iesu Grist wedi talu yn ein lle. Dyna'r newyddion da rydyn ni'n eu dathlu adeg y Pasg. Daeth Iesu i'r byd i fyw bywyd perffaith a mynd i'r groes er mwyn talu'r gost am ein pechodau ni. Cymerodd gosb ein drygioni ni, a derbyn barn Duw am ein pechod ni. Atgyfododd wedyn gan ddangos bod Duw yn fodlon ar y pris a dalwyd.

Bydd y car yn rhydu eto, ond diolch i Dduw ei fod wedi delio â phroblem ein pechod ni unwaith ac am byth, heb ofyn dim i ni.

'Ond prawf Duw o'r cariad sydd ganddo tuag atom ni yw bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid.'
Rhufeiniaid 5:8

Gair o Gymorth

Amanda Griffiths

Gwyn ei fyd y sawl
nad yw'n dilyn cyngor y drygionus
nac yn ymdroi hyd ffordd
pechaduriaid
nac yn eistedd ar sedd gwatwarwyr,
ond sy'n cael ei hyfrydwch yng
nghyfraith yr ARGLWYDD
ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd
a nos.
Y mae fel pren
wedi ei blannu wrth ffrydiau dŵr
ac yn rhoi ffrwyth yn ei dymor,
a'i ddeilen heb fod yn gwywo.
Beth bynnag a wna, fe lwydda.
(Salm 1 1-3)

Gŵyr pawb am bwysigrwydd darllen y Beibl yn ddyddiol i gael cymorth, anogaeth a chyfarwyddyd. Weithiau mae gennym ddigon o amser i fyfyrio a darllen, ond dro arall dim ond ychydig funudau mewn diwrnod prysur. Rydym i gyd yn wahanol ond mae yna doreth o lyfrau a llyfrynnau gwahanol ar gael heddiw i'n helpu cael ein bwydo yn ysbrydol – beth bynnag yw ein hoedran a sefyllfa'n bywyd.

Dyma restr o ambell i lyfr sydd wedi bod o gymorth i aelodau'r eglwys, ynghyd â sylwadau tri unigolyn ar lyfrau penodol.

Interactive Bible Studies (St Matthias Media/Good Book Company) – cyfres dda iawn ar gyfer grwpiau bach neu gyplau, yn ogystal ag unigolion.

Geneva Bible Notes (Grace Publications)

Tabletalk/XTB (Good Book Company) – i blant rhwng 7 ac 11 oed, neu i'w darllen fel teulu

Search the Scriptures (IVP)

***For the Love of God:* Carson** (IVP)

***Morning and Evening:* Spurgeon**

Bara'r Bywyd (Gwasg Bryntirion)

Llwybrau (Gwasg Bryntirion) – ceir cyfres o ddarlleniadau dyddiol i bobl ifanc yn y cylchgrawn hwn

Gill Burns

The Goodnight Book: Richard Bewes (£7.99)

Prynais y llyfr bach hwn pan oeddwn yn cael trafferth cysgu yn ddiweddar, am ddau reswm. Yn gyntaf, y teitl addas, ac yn ail am ei fod wedi ei gymeradwyo gan Joni Earickson Tada.

Casgliad o 123 o fyfyrdodau, tudalen o hyd a geir ynddo, bob un ar adnod neu gymal Beiblaidd. Maent yn frith o brofiadau personol a straeon perthnasol am gymeriadau sy'n annwyl i'r awdur. Mae'r rhain yn rhoi cyd-destun ac yn help i rannu'r fendith ym mhrofiad Richard Bewes sydd yn y darn dan sylw.

Mae rhai o'r myfyrdodau'n sefyll yn annibynnol, ond mae eraill yn rhan o 'mini cyfres;' er enghraifft ar y Gwynfydau, neu Weddi'r Arglwydd.

Mae'r arddull yn syml, fel petai'r awdur yn sgwrsio â'r darllenwr. Mae pob myfyrdod, er yn fyr, yn arwain y darllenwr i bwyso ar agwedd benodol o

ddysgeidiaeth y Beibl am bwy a beth yw Duw a sut mae'n trefnu ei ymwneud â dyn. Mae arweiniad sicr i Gristion am sut i ymateb mewn sefyllfaoedd anodd neu brofedigaethau trwy bwyso ar y ddysgeidiaeth a'r addewidion sydd yn yr adnodau a ddewisir. Mae pob tudalen yn cloi â phennill neu frawddeg sy'n crynhoi'r neges, yn waith Cristnogion dros y canrifoedd.

Roedd y myfyrdodau'n help i mi roi trefn ar fy meddyliau ar ddiwedd y dydd fel y medrwn ganolbwyntio ar ryw wirionedd a roddai ddigwyddiadau'r dydd yn eu lle, a gwybod mai'r Duw Tragwyddol sy'n rheoli pob peth.

Jon Glanfield

Os ydw i'n onest, rydw i wedi stryglan gyda fy amser darllen a gweddïo personol ar adegau yn y gorffennol. Rhywbeth sydd wedi fy helpu i yn ddiweddar yw gosod patrwm a strwythur i fy amser tawel. Mae'n bwysig ffeindio amser a lleoliad

addas, lle na fyddi di'n cael dy ddistyrbio.

Rydw i'n gweithio yng nghanol y ddinas ac rydw i'n mwynhau mynd i'r Amgueddfa bob amser cinio i ddarllen fy Meibl (heblaw dydd Llun pan mae'r Amgueddfa ar gau). Rwy'n ffeindio bod yr Amgueddfa yn lle tawel a heddychlon ac mae gen i ddigon o amser yno i ddarllen, gweddïo a bwyta fy mrechdanau.

Gan fy mod i'n darllen yn yr Amgueddfa rydw i wedi dechrau defnyddio *The Daily Reading Bible.* Mae hwn yn llyfryn ysgafn sy'n cynnwys 60 o ddarlleniadau o'r Beibl ynghyd â chwestiynau am y testun. Mae'n llyfryn bach hwylus i gario yn fy mag gyda fy mocs brechdanau. Mae cael cwestiynau yn help achos mae'n rhaid i ti feddwl am beth rwyt ti newydd ei ddarllen ac ystyried sut y dylai hyn effeithio ar dy fywyd di. Rydw i hefyd yn hoffi cadw amserlen gweddïo ac yn meddwl ei bod hi'n help i weddïo am bobl neu bynciau penodol ar wahanol ddiwrnodau.

Aled Lewis

Cyn dechrau darllen y Beibl rwy'n trio gweddïo yn gyntaf er mwyn gofyn i Dduw siarad gyda fi. Mae ysgrifennu nodiadau bras yn fy helpu i ganolbwyntio a chael budd wrth ddarllen y Beibl. Rwy'n defnyddio esboniadau wrth astudio'r mwyafrif o lyfrau, ond ar adegau byddaf yn darllen llyfr mwy syml heb esboniad, yn enwedig os oes naratif cryf fel Samuel neu Brenhinoedd.

Mae'r cylchgrawn *Llwybrau* yn gallu bod yn gymorth i bobl ifanc gan ei fod yn rhoi awgrymiadau dyddiol o pa ran o'r Beibl i'w darllen ac yn gofyn rhai cwestiynau sy'n ein hannog i fyfyrio ar y darn a'i gymhwyso. Mae darllen y Beibl yn gallu bod yn anodd weithiau, ond mae'n werth dyfalbarhau a gofyn am help.

Sut mae Gweddïo’

Wrth sôn am weddi, prif bwyslais yr Arglwydd Iesu Grist yw’r weddi bersonol: mynd i’r ystafell ddirgel a chau’r drws a galw ar ein Tad yn y dirgel yw ei gyfarwyddyd yn y Bregeth ar y Mynydd. Ond cawn hefyd fod yr Eglwys Fore yn gweddïo ar y cyd wrth gyfarfod, er nad yw’r term ‘cyfarfod gweddi’ yn cael ei ddefnyddio fel y cyfryw.

Mae saint ar hyd y canrifoedd wedi ystyried mai buddiol yw dod ynghyd yn rheolaidd i weddïo. Yn wir, mae llawer yn ystyried bod ymbresenoli yn y cwrdd gweddi mor bwysig â bod yn oedfaon y Sul.

Mae manteision amlwg mewn dod at ein gilydd i weddïo:

- Mae’n fuddiol inni neilltuo lle ac amser i ddod i weddïo.

n Gyhoeddus?

Gwynn Williams

- Mae'r ffaith ein bod i gyd yno, gyda'r un bwriad, yn galondid i bawb.
- Mae clywed gweddïau eraill yn gallu bod o gymorth.
- Mae'n gyfle i aelodau rannu anghenion â'i gilydd.

Mae rhyddid i bawb weddïo mewn cwrdd gweddi ond dylai'r dynion yn arbennig gofio anogaeth Paul, 'Y mae'n ddymuniad gennyf, felly, fod y gwŷr ym mhob cynulleidfa yn gweddïo ...'(I Timotheus 2.8). Nid oes rheidrwydd ar bawb i weddïo'n gyhoeddus, ond dylai pawb geisio cyd-weddïo â'r un sy'n gweddïo ar y pryd.

Doeth yw cadw rhai pwyntiau mewn golwg.

- Dylid gweddïo mewn llais clir a digon uchel i bawb glywed a deall.
- Ni ddylid gweddïo'n rhy hir – nid oes angen i un person weddïo dros bopeth y soniwyd amdano; mae eraill yno i weddïo hefyd.
- Mae'n dda canolbwyntio ar rai materion y bydd Duw yn eu gosod ar ein calon.
- Ni ddylid bod yn rhy bersonol wrth sôn amdanoch eich hun nac wrth weddïo dros eraill – mae angen doethineb yma.
- Ni ddylid ofni distawrwydd – gall fod yn gyfle i fyfyrio ond mae angen cofio mai dod i weddïo yn gyhoeddus a wnawn.
- Buddiol yw cysylltu'r gweddïau â gweinidogaeth y Sul blaenorol neu â'r ysgrythur a ddarllenwyd ar ddechrau'r cyfarfod.

Arferai'r hen saint sôn am y cwrdd gweddi fel pwerdy'r eglwys. O na fyddai felly eto!

Dau Ddewr

Noel Gibbard

Ym 1633, daeth 'Llyfr y Chwaraeon' i rym. Ei fwriad oedd cyfreithloni chwaraeon ar y Sul, a gorchmynnwyd ei ddarllen o bulpudau'r eglwysi. Dyma ymgais at orfodaeth er mwyn creu unffurfiaeth a fyddai'n cryfhau awdurdod y brenin ac Eglwys Loegr. Roedd y Piwritaniaid, a oedd eisiau diwygio'r eglwys, yn anhapus â'r gorchymyn. Yn eu plith roedd William Erbury a Walter Cradoc. Ganwyd William Erbury yn y Rhath, Caerdydd, a daeth yn ficer eglwysi Mair a Ioan Fedyddiwr. Lleolwyd hen eglwys Fair gerllaw lle mae'r Orsaf Ganolog yn awr. Nid oedd adeilad yno ar y pryd, oherwydd chwalwyd ef yn 1607 pan orlifodd afon Taf. Ar brydiau yn y gorffennol, gwelid esgyrn y meirw yn y fynwent yn dod i'r wyneb ar adeg o drai. Mae eglwys Ioan Fedyddiwr yn sefyll o hyd rhwng y Farchnad a Neuadd Dewi Sant.

Hawlfraint: Phillip Halling (wedi'i drwyddedu i'w ail-ddefnyddio: http://creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0)

Roedd Walter Cradoc, a anwyd ym mhlwyf Llangwm yng Ngwent, yn gurad i William Erbury, ac fel y ficer, nid oedd y curad yn hapus iawn gyda 'Llyfr y Chwaraeon'. Gwrthododd Cradoc ei ddarllen, ac ym 1634 amddifadwyd ef o'i drwydded i bregethu. Flwyddyn yn ddiweddarach roedd Erbury mewn helynt gyda'r esgob, a chanlyniad hyn oedd i Erbury ymddiswyddo o'i fywoliaeth. Crwydro a wnaeth y ddau yn sgil yr helyntion. Aeth Erbury i Loegr, a bu farw yn Llundain. Crwydrodd Walter Cradoc i Wrecsam, Amwythig a Llanfair Waterdine. Cyfeiriwyd at y Piwritaniaid yn y Gogledd fel 'Cradociaid'.

Ymunodd Walter Cradoc a William Erbury â William Wroth, ac eraill, i sefydlu eglwys Annibynnol yn Llanfaches, Gwent, ym 1639; y gyntaf yng Nghymru. Nid codi capel a wnaethant, ond sefydlu eglwys; achos, ar sail yr hyn oedd iddynt hwy yn ysgrythurol. Ysgrifenodd y ddau yn helaeth hefyd, ac roedd Walter Cradoc yn bregethwr dylanwadol. Yn ystod cyfnod Oliver Cromwell, cafodd y Piwritianiaid ryddid i hyrwyddo pregethu teithiol, a bu Walter Cradoc yn teithio'n gyson i gyhoeddi'r newyddion da. Cyhoeddwyd sawl cyfrol o'i bregethau, a theitlau nodweddiadol biwritanaidd arnynt; er enghraifft, *Divine Drops Distilled from the Fountain of Holy Scriptures.* Gwnaeth ddefnydd o gymariaethau cartrefol yn ei bregethau; er enghraifft, wrth sôn am agosrwydd y berthynas rhwng Duw a'r credadyn, cyfeiria at dad yn cymryd plentyn ar ei liniau, ac yn ei anwylo.

Pwyllgor Cwmpawd

Leri George
Noel Gibbard
Amanda Griffiths
Christine James
Catrin Lewis
Gwynn Williams

Gwefannau

Catrin Lewis

Mae'r We yn gallu bod yn was da ond yn feistr caled hefyd. Mae'n gallu'n sugno ni i dreulio llawer mwy o amser nag yr oedden ni wedi ei fwriadu o flaen y sgrin fach. Ond mae hefyd yn gallu bod yn adnodd gwych. Felly dyma rai gwefannau diddorol a defnyddiol a allai fod o help i chi, gan obeithio y gwnewch ddefnydd da o'ch amser!

Os ydych am wrando ar bregeth ar ryw ran benodol o'r Ysgrythur gallwch droi at www.sermonaudio.com. Dyma'r adnodd mwyaf o bregethau efengylaidd a diwygiedig sydd ar gael ar y We. Mae'n cynnwys pregethwyr cyfoes, yn ogystal â hen bregethau yn cael eu darllen.

Ymhlith y gwefannau Americanaidd mwyaf buddiol mae www.desiringgod.org (John Piper), www.gty.org.uk (*Grace to You*, John MacArthur) a www.sovereigngraceministries.org. Mae'r gwefannau hyn nid yn unig yn rhoi cyfle i chi lawrlwytho pregethau, ond maent hefyd yn cynnwys erthyglau cyfoes a

llun: www.freeimages.co.uk

pherthnasol, yn ogystal â blogiau difyr.

Os ydych chi'n methu dod o hyd i adnod penodol, neu yn ceisio olrhain rhyw gyfeiriad Beiblaidd mae www.biblegateway.com yn ddefnyddiol iawn fel mynegai ysgrythurol. Mae hefyd yn rhoi cynllun darllen y Beibl, e.e. awgrym o gynllun darllen sy'n arwain at y Groglith a'r Pasg.

Os ydych yn awyddus i astudio'n fanylach, ac efallai yn fwy academaidd, trowch at www.biblicalstudies.org.uk er mwyn cael eich cyfeirio at lyfrau, esboniadau ac erthyglau ar unrhyw lyfr o'r Beibl, neu ar gymeriadau Beiblaidd. Mae'r wefan hon hefyd yn rhoi

cyflwyniad ynglŷn â sut i fynd ati i astudio'r Beibl.

Mae www.e-sword.net yn adnodd y gallwch ei lawrlwytho. Mae'n cynnwys llawer iawn o elfennau defnyddiol a fydd o gymorth wrth ddarllen ac astudio'r Beibl. Mae ynddo gyfieithiadau gwahanol, esboniadau, mapiau, cefndir hanesyddol, llinell amser, geiriadur Beiblaidd, cyfle i chi ychwanegu nodiadau ymyl-y-ddalen personol neu nodiadau o bregethau, ynghyd â llawer iawn rhagor.

Os oes gennych gwestiwn ar fater penodol sy'n berthnasol i'r ffydd Gristnogol mae'n werth troi at www.bethinking.org sef gwefan UCCF sy'n delio ag apologeteg. Cewch hyd i erthyglau esboniadol ar y Beibl, crefyddau eraill, cwestiynau moesol, a phynciau gwyddonol, diwylliannol a chelfyddydol.

Dywedir bod ein byd ni wedi mynd yn fyd bach iawn gyda dyfodiad y We. Os ydych am gadw'n gyfoes â'r wybodaeth am Gristnogion sy'n cael eu herlid ar draws y byd gallwch droi at barnabasfund.org. Bydd hyn yn ein helpu i weddïo'n ystyrlon am ein brodyr a'n chwiorydd o bedwar ban byd. Mae gwefan www.tearfund.org hefyd yn adnodd cynhwysfawr iawn ar broblemau tlodi yn ein byd. Yn nes at adref mae www.christian.org.uk , sef gwefan y Christian Institute, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion gwleidyddol a chyfreithiol sy'n ymwneud â hawliau Cristnogion yma ym Mhrydain.

Os ydych chi'n rhiant, ac yn tynnu'ch gwallt ar brynhawn gwlyb yn chwilio am rywbeth i'w wneud gyda'ch plant, beth am doi at www.dltk-bible.com am syniadau crefft ac ati.

Heb anghofio wrth gwrs am www.beibl.net sy'n gyson yn ychwanegu mwy a mwy o adnoddau i gyd-fynd â'r testun modern o'r Beibl yn Gymraeg.

Ac os ydych chi i ffwrdd o Gaerdydd dros y Sul, ac am gadw i fyny â'r gyfres o bregethau yn Rhufeiniaid, gobeithio nad oes angen eich atgoffa am wefan y capel, sef www.cwmpawd.org. Er mwyn cadw'r ddisgyl yn wastad, rhaid nodi hefyd fod gan nifer o gapeli Cymraeg eraill eu gwefannau, ac mae'n werth cael golwg arnynt er mwyn cael gwybod beth sy'n digwydd mewn gwahanol fannau yn ein gwlad.

Newyddion

Siwrnai hir a'r Llwybr Cul
Encil Bryn-y-groes, Chwefror 2010

Aeth Luned a minnau i'r encil yn y Bala yn ystod ein gwyliau hanner-tymor. Doedd y siwrnai hir yn y car ddim yn ddechrau da iawn (er bod brecwast yn McDonalds ar y ffordd yn gymorth – diolch Anti Janet!), ond unwaith y cyrhaeddon ni dyma ddechrau mwynhau yn syth. Aled Myrddin oedd yr Arweinydd eleni a Dewi Tudur yn Gaplan, a gyda nhw roedd tîm o swyddogion hwyliog oedd yn barod i ateb unrhyw gwestiynau oedd gennym ni'r gwersyllwyr.

Rhannwyd y gwersyllwyr yn grwpiau y diwrnod cyntaf hwnnw, ac mae'n dda gen i allu adrodd mai fy ngrŵp i oedd yn fuddugol erbyn diwedd yr encil! Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw cawsom wasanaeth dan arweiniad Dewi, a threulion ni weddill y noson yn chwarae gemau ac yn cael hwyl yng nghwmni'n gilydd, gan gynnwys chwarae gêm o Maffia.

Yr ail ddiwrnod aethom ni i'r ganolfan hamdden gyfagos, ac fel athro ymarfer corff profiadol fe lwyddodd Aled Myrddin i flino'r gwersyllwyr yn llwyr. Wedyn cawsom Astudiaeth Feiblaidd yn seiliedig ar bregeth y bore, ar thema'r llwybr cul a'r lwybr llydan. Roedd hyn yn dda iawn ac yn gyfle i mi ddod i nabod bechgyn eraill y dorm yn well.

Yn ddiweddarach y noson yna cawsom eisteddfod-ar-y-pryd oedd yn cynnwys cystadlaethau fel dawnsio disgo ac, wrth gwrs, cystadleuaeth y gadair. Rhoddwyd y wobr fawreddog honno eleni am limerig. Wna i ddim dweud wrthych pwy a enillodd, dim ond dweud mae'n rhaid bod y pethau hyn yn rhedeg yn y teulu! Ar ôl yr eisteddfod cawsom sesiwn gofyn cwestiynau a aeth ymlaen am oriau. Os ydych chi'n hoff o aros lan yn hwyr byddwch yn siŵr o hoffi encil Bryn-y-groes!

Cyrhaeddais i nôl o'r encil eleni yn flinedig a braidd yn stiff ar ôl treulio oriau yn y car eto. [Rhaid bod hynny'n rhedeg yn y teulu hefyd! – Gol.] Efallai bod y sylwadau olaf hyn yn swnio braidd yn negyddol, ond pe bai rhywun yn gofyn i mi a ydw i am fynd i'r encil eto y flwyddyn nesaf, fy ateb fyddai: 'Ydw, siŵr iawn!'

Owain James

Llongyfarchiadau ...
Cyrhaeddodd Elis Teifi Hallam yn ddiogel i'r byd ar Chwefror 15. Llongyfarchiadau i'w rieni, Trystan a Katherine Hallam, a chroeso mawr i'n plith Elis!

Bu nifer o'r eglwys yn cyd-lawenhau gyda Llion a Rhiân Evans wrth iddyn nhw briodi yn Eglwys Park End, Cyncoed ar Fawrth 20. Pob bendith i'r ddau ohonoch wrth sefydlu'ch cartref newydd ym Manceinion.

Cyhoeddwyd dau ddyweddiad ers cyhoeddi'r rhifyn diwethaf o *Cwmpawd.* Llongyfarchiadau i Steffan Elis a Jenny Turner, ac Emyr James a Catrin Fflur Jones.

Llion a Rhiân Evans

Noson Gŵyl Ddewi
Roedd dathliad yr eglwys ar ŵyl ein nawddsant braidd yn anarferol eleni. Cawsom y fraint o groesawu criw o Gristnogion o Gorea i'n plith ar gyfer noson Gymreig a Choreaidd! Ynghyd â'r bwyd blasus a'r cyfle i glywed cantorion o'r ddwy wlad, roedd yn hyfryd cael rhannu ffydd gyffredin yn yr Arglwydd Iesu a chlywed am hanes y Cristnogion yng Nghorea (a'r cysylltiad Cymreig) yn ogystal â gwaith yr Eglwys Goreaidd yma yng Nghaerdydd. Diolch i Phil Ellis am drefnu noson gofiadwy.

Dyddiadau i'w cofio:
Cynhelir oedfa Gwener y Groglith yn yr Eglwys ar Ebrill 2 am **10.30**. Geraint Lloyd fydd yn pregethu.

Bydd cynhadledd eglwysi'r De eleni'n cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn, Mai 22. Jonathan Thomas fydd y siaradwr.

Oedfaon yr Eglwys Newydd
Cynhelir oedfa nos unwaith y mis (ar ail Sul y mis) yng nghapel Tabernacl, Heol Merthyr am 6.30pm.

Dyma fanylion y tri mis nesaf:

Ebrill 11	Rhodri Jones
Mai 9	Gwynn Williams
Mehefin 13	Trystan Hallam

I'r Dyddiadur

Yn ystod yr wythnos...

Clwb Hapus Awr | nos Lun |6.00 - 7.00pm
Cyfarfod Gweddi | nos Fawrth | 7.40pm
Paned a Sgwrs | bob yn ail fore Mawrth | 10.00am
Cylch y Plant Bach | bore Gwener | 10.00 - 11.30am
Clwb y Bobl Ifainc | nos Wener | 7.00pm

Cynhelir y gweithgareddau uchod yn adeilad yr eglwys, ar wahan i Glwb Hapus Awr a gynhelir yn Ysgol Gynradd Eglwys Newydd.

Ar ddydd Sul...

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys. Cynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau'r ysgol (11.45 – 12.30am).

Mawrth	*28*	*Trystan Hallam*
Ebrill	*4*	*Gwynn Williams*
	11	*Trystan Hallam*
	18	*Gwynn Williams*
	25	*Gwynn Williams*
Mai	*2*	*Trystan Hallam / Gwynn Williams*
	9	*Gwynn Williams / Trystan Hallam*
	16	*Gwynn Williams*
	23	*Trystan Hallam*
	30	*Gwynn Williams*
Mehefin	*6*	*Dafydd James Morse*
	13	*Gwynn Williams*

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd
Stryd Rhymni, Cathays, Caerdydd

www.cwmpawd.org